| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **16 EBRILL 2013** |
| **PWNC** | **CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Pan sefydlwyd y Pwyllgor Iaith flwyddyn yn ôl mabwysiadodd y Cyngor yr hyn sydd yn yr Atodiad fel cylch gorchwyl iddo. Ers hynny mae profiad wedi dangos fod lle i adolygu a chryfhau'r cylch gorchwyl. Bydd cyfle i'w ddiwygio yn y Cyngor Blynyddol.

2. Dan y drefn Gabinet mae'r cyfrifoldeb am faterion iaith, heblaw Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, yn perthyn i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer. Mae mabwysiadu'r cynllun iaith yn fater i'r Cyngor llawn, sydd wedi dirprwyo'r gwaith o'i lunio a'i fonitro i'r Pwyllgor.

3. Daw'r cynllun iaith presennol i ben eleni a bydd angen ystyried creu cynllun newydd i bontio'r cyfnod hyd y daw'r safonau iaith newydd i rym. Bydd hyn yn fater i'r Pwyllgor i wneud argymhelliad arno i'r Cyngor llawn.

4. Yn sgil canlyniadau'r cyfrifiad diau y bydd angen hefyd edrych ar gyfeiriad strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg o fewn y sir. Mae'r gwaith o greu strategaeth a hyrwyddo'r iaith yn perthyn i'r Aelod Cabinet. Mae yma gyfle i ddefnyddio'r pwyllgor fel corff ymgynghorol ar gyfer y gwaith strategol hwn. Os felly, bydd angen ychwanegu hwn at y cylch gorchwyl.

5. Mae monitro'r cynllun iaith yn barod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ond efallai fod angen eglurder ar pa gwynion sydd oddi fewn i'r cynllun ac felly yn gallu cael eu trin gan y pwyllgor a pha rai sydd oddi allan i'w bwerau i ymdrin â hwy.

6. Bwriad y cynllun iaith ydi sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn cael eu darparu gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Golyga hyn fod cwynion yn ymwneud â darpariaeth gan y Cyngor ei hun neu am wasanaeth a ddarperir ar ran y Cyngor gan drydydd parti yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Yn ogystal mae cwynion am ddarpariaeth gan bartneriaeth y mae'r Cyngor yn rhan ohoni neu am gyrff sydd wedi torri amod iaith ynghlwm mewn grant neu nawdd, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor.

7. Mae cwynion eraill, am gyrff lle nad oes perthynas ddarparu gwasanaeth gyda’r Cyngor, oddi allan i bwerau’r pwyllgor i wneud unrhyw beth yn eu cylch.

8. Fel rhan o’i waith monitro efallai yr hoffai’r Pwyllgor gymryd rôl rhagweithiol i edrych ar rai o brif bolisïau a gweithdrefnau’r Cyngor trwy gyflwyno asesiad ardrawiad iaith. Byddai modd i’r asesiad gael ei ddefnyddio i wirio unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet gan adrodd yn ôl i’r pwyllgor yn achlysurol ar y darganfyddiadau.

**ARGYMHELLIAD**

9. Argymhellir bod y Pwyllgor yn:

   9.1 Ystyried ei raglen waith am y flwyddyn i ddod yng ngoleuni ei bwerau a’i gylch gorchwyl

   9.2 Argymell i’r Cyngor Llawn ar 2 Mai ychwanegu’r cymal canlynol at gylch gorchwyl y Pwyllgor

   “Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i’r Cabinet yn ôl yr angen”